



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 13 Mehefin 2019  
am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach,  
Tonypany, CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn  
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple    Y Cyngorydd J Bonetto  
Y Cyngorydd P Jarman    Y Cyngorydd D Grehan  
Y Cyngorydd G Hughes    Y Cyngorydd J Williams  
Y Cyngorydd S Powell    Y Cyngorydd R Yeo

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Jones, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Mr J Bailey, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Ms L Coughlan, Cyfreithiwr  
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd R Bevan  
Y Cyngorydd J Davies

Y Cyngorydd J Cullwick  
Y Cyngorydd D Owen-Jones

**1        DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hughes fuddiant personol yn Eitem 12 – Cais 19/0386: Estyniad i'r ardd uchel. Trosi ardal barcio bresennol yn garej, 64 Teras Tyn-y-bedw, Treorci, CF42 6RL. 'Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd'.

**2        DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI  
DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3        DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu

cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

#### 4 **COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2019 yn rhai cywir.

#### 5 **NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

#### 6 **CAIS: 18/1361**

**Amlinelliad o 4 annedd ar wahân gyda gwaith cysylltiedig (cynlluniau diwygiedig ar gyfer y safle wedi'u derbyn ar 18/02/19), Heol y Chwarel, Maes-y-coed, Pontypridd, CF37 1JT.**

Nododd y Pwyllgor nad oedd y siaradwyr cyhoeddus canlynol, a oedd wedi gwneud cais i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cais, yn bresennol i wneud hynny:

- Mr Roberts (Gwrthwynebydd)
- Mrs Roberts (Gwrthwynebydd)

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

#### 7 **CAIS: 19/0329**

**Newid defnydd o gartref preswyl i gartref gofal plant, Archgrove, Heol y Ficerdy, Pen-y-graig, Tonypanyd, CF40 1HN.**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i ystyried problemau posibl o ran y priffyrdd ac effaith y datblygiad ar fwynderau cyfagos. Gan nad yw llawer o'r materion a godwyd gan y gwrthwynebwyr yn faterion cynllunio, gofynnodd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu hefyd am estyn gwahoddiad i'r archwiliad safle i Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW), er mwyn i gynrychiolydd ymateb i'r pryderon.

Yng ngoleuni'r penderfyniad uchod, dywedodd y Cadeirydd wrth y sawl a oedd yn bresennol er mwyn annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais yma y byddai raid iddyn nhw wneud cais i annerch y Pwyllgor eto pan fyddai'r mater yn cael ei drafod, pe hoffen nhw wneud hynny.

#### 8 **CAIS: 19/0386**

**Estyniad i'r ardd uchel. Trosi ardal barcio bresennol yn garej, 64 Teras Tyn-y-bedw, Treorci, CF42 6RL.**

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Celyn Ashton a oedd wedi gofyn i annerch yr Aelodau ar y cais yn dymuno gwneud hynny.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr hwyr a dderbyniwyd oddi wrth gynrychiolydd Cymdeithas Trigolion Tyn-y-bedw a'r Ardal

Leol (TALARA) yn gwrthwynebu'r cais.

Parhaodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu trwy gyflwyno'r cais uchod i'r Pwyllgor. **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**9 CAIS: 19/0439**

**Estyniad un-llawr arfaethedig i gefn yr adeilad, 7 Laburnum Drive, Cwmdâr, Aberdâr, CF44 8RT.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Aneurin Jones (Ymgeisydd). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Nick Smith (Gwrthwynebydd) a oedd wedi gofyn am gael annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cais yn bresennol i wneud hynny.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu

**10 CAIS: 19/0463**

**Amrywio amod 2 (cynlluniau cymeradwy) o gais cynllunio a gymeradwywyd yn flaenorol 16/1299/10 ar gyfer ail-leoli'r garej ar wahân i safle gwahanol o fewn ffiniau'r safle, 10 Glenboi, Aberpennar, CF45 3DG.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Wayne Archer (Ymgeisydd). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**11 CAIS: 19/0071**

**Gosod cladin dur proffil a deunydd insiwleiddio acwstig a gwres dros y cladin sy'n bodoli eisoes ar waliau'r uned, a gosod 3 seilo ar ochr orllewinol yr uned, ac 1 seilo i'r de-ddwyrain o'r uned (ochr ddeheuol) (cynlluniau diwygiedig wedi'u derbyn ar 07/03/2019). Hen safle Crabtree And Evelyn Overseas Ltd, Heol y Bont-faen, Tonysguboriau, Pont-y-clun, CF72 8HL.**

Yn unol â Chofnod Rhif: 275 Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu. Amlinellodd yr adroddiad ganlyniad yr ymweliad safle, a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2019 mewn perthynas â'r cais. Roedd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu wedi argymhell cymeradwyo'r cais yma.

**(Nodwch:** Ar y pwynt yma, datganodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto ac R. Yeo y buddiannau personol canlynol: 'Mae'r siaradwr cyhoeddus yn

hysbys i mi'.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor yr aelodau canlynol o'r cyhoedd a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Peter Brewin (Ymgeisydd)
- Mr Paul Griffiths (Cefnogwr)

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu Amod, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno a chymeradwyo lliw deunyddiau'r cladin arfaethedig.

**12 CAIS: 18/0789**

**Garej arfaethedig (cynlluniau diwygiedig wedi'u derbyn ar 02/05/2019), Brynteg, Heol Llanhari, Llanharan, Pont-y-clun, CF72 9LH.**

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**13 CAIS: 18/1060**

**Dymchwel adeilad capel adfeiliedig a chodi 6 fflat dwy ystafell wely, ac 1 fflat llawr uchaf 1 ystafell wely, a maes parcio, a symud sawl carreg fedd i'r wal ffin er mwyn creu lawnt, Capel y Ton, 3 Stryd Fawr, Tonyrefail.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar benderfyniad cadarnhaol ynglŷn â'r Caniatâd Adeilad Rhestredig (LBC) cysylltiedig ac atgyfeiriad ffafriol i Cadw. Mae'r gymeradwyaeth hefyd yna ddibynnol ar ychwanegu amod, sy'n gofyn am gyflwyno a chymeradwyo cynllun mesurau inswleiddio acwstig i atal aflonyddu sŵn ar ddeiliaid y fflatiau ar yr ochr sydd agosaf at Theatr y Savoy.

**14 CAIS: 18/1072**

**Dymchwel adeilad capel adfeiliedig a chodi 6 fflat dwy ystafell wely, a maes parcio, a symud sawl carreg fedd i'r wal ffin er mwyn creu lawnt (Caniatâd Adeilad Rhestredig), Capel y Ton, 3 Stryd Fawr, Tonyrefail.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar atgyfeiriad ffafriol i Cadw.

**15 CAIS: 19/0281**

**Ôl-gais am ganiatâd ar gyfer patio uchel, 24 Teras Arfryn, Tylorstown, Glynrhedynog, CF43 3DR.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais ac yn dilyn trafodaeth, roedd yr Aelodau'n dymuno **GWRTHOD** y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu gan fod yr Aelodau o'r farn bod y datblygiad yn ormesol ac y byddai'n cael effaith sylweddol ar amwynderau a phreifatrwydd i drigolion. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**16 CAIS: 19/0328**

**Newid defnydd o ganolfan hamdden D2 i ddatblygiad defnydd cymysg yn cynnwys canolfan hamdden D2 a swyddfeydd B1. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig, gan gynnwys cynllun lleoliad y safle, sy'n cynnwys trosi ystafell gyfarfod ar y llawr gwaelod yn ofod swyddfa ychwanegol a chanolfan ddata, ar 30 Ebrill 2019), Canolfan Hamdden Rhondda Fach, Stryd y Dwyrain, Tylorstown, Glynrhedynog, CF43 3HR.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**17 CAIS: 19/0446**

**Newid defnydd y llawr gwaelod o A1 i A3 (Bar Cwrw Crefft a Siop Botel). Defnyddio gofod allanol i gynnwys seddau ar gyfer 10 person, Uned 6, Yr Hen Ysgol Genedlaethol, Stryd Caerdydd, Aberdâr, CF44 7DP.**

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**18 CAIS: 19/0461**

**Wyth arwydd, Pwll Padlo, Parc Ystradfechan, Heol yr Orsaf, Treorci.**

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**19 CAIS: 18/0363**

**Cais cynllunio amlinellol (gyda phob mater wedi'i gadw) ar gyfer datblygiad**

**preswyl arfaethedig (ailgyflwyno cais). Chwarel Bodwenarth, Bedw Road, Cilfynydd.**

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais a gafodd ei gyflwyno yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 16 Awst, 2018, lle'r oedd yr Aelodau wedi gwrthod y cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu (Mae Cofnod 72 yn cyfeirio at hyn).

Eglurwyd bod gwaith ychwanegol wedi'i wneud ers penderfyniad blaenorol yr Aelodau er mwyn sicrhau bod y datblygwyr yn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â sefydlogrwydd a diogelwch y chwarel.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod cais yn groes i argymhelliad y swyddog. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu yn amodol ar gwblhau cytundeb Adran 106, sy'n nodi'r gofyniad i ddarparu dwy uned tai fforddiadwy yn unol ag argymhellion isadran strategaeth tai'r Cyngor ac yn amodol ar y newidiadau canlynol i'r Amodau:

- Mae angen ail-eirio Amod 21 fel a ganlyn:  
*'Bydd y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn cael ei wneud yn unol â chasgliadau'r adroddiad Groundsure gwreiddiol a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio fel y'i diwygiwyd / cefnogwyd gan yr adroddiad GSL a dderbyniwyd ar 1 Chwefror 2019 a llythyr dyddiedig 10 Ebrill 2019.'*
- Dileu Amod 22

**(Nodwch:** Cafodd cynnig i wrthod y cais ei eilio, ond methodd hyn)

**20 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 29.04.19 – 31.05.19.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 pm**

**Y Cyngorydd S Rees  
Cadeirydd.**